Gorsaf Trosglwyddo Gwastraff	-	1,025	-	-	CSC

Cyfanswm - Priffyrdd a Gwasanaethau Amgylcheddol

10,199	22,035	5,498	2,610
---------------	---------------	--------------	--------------

Porth Gofal

Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl	1,400	1,400	1,400	1,400	CSC
Grantiau Hyrwyddo Annibyniaeth i Bobl yn eu Cartrefi eu Hunain	229	-	-	-	Grant
Cynlluniau Benthyciadau Gwella Cartrefi a Benthyciadau Troi Tai'n Gartrefi	100	-	-	-	Grant/Benthyciad
Cylch Caron	-	252	-	-	CSC/Grant
Grant Hwyluso i Fyw'n Annibynnol	146	146	-	-	Grant
Grantiau Mesurau Ynni Cartrefi Clyd	486	-	-	-	Grant
Camu Mlaen - Canolfan Steffan	78	-	-	-	CSC
Gwaith brys - Cartrefi Preswyl	223	100	100	100	CSC
Canolfannau Dydd - Gwaith Diogelu'r Cyhoedd ac Amgylcheddol	224	-	-	-	CSC
Llety Diogel yn y Sir - ar gyfer Plant	300	200	-	-	CSC/Grant
Gwella ac uwchraddio cartrefi preswyl	499	900	-	-	CSC
Cronfa Datblygu Tir ac Adeiladau	400	1,600	-	-	Grant
Prosiect Dementia Hafan Deg	370	-	-	-	CSC/Grant
Prynu ac Adnewyddu Eiddo	129	161	-	-	Grant
Cronfa Tai â Gofal	161	-	-	-	Grant

Cyfanswm - Porth Gofal

4,745	4,759	1,500	1,500
--------------	--------------	--------------	--------------

Cyllid i'w ddyrannu

-	556	525	925	CSC
---	-----	-----	-----	-----

CYFANSWM Y RHAGLEN WAITH

33,986	55,530	19,158	6,149
---------------	---------------	---------------	--------------

Arian wrth gefn	276	350	350	350	CSC
-----------------	-----	-----	-----	-----	-----

Grantiau newydd a gymeradwywyd / Arian cyfatebol ar gyfer cynlluniau grant	1,016	4,200	4,200	4,200	£200k CSC/Grant
--	-------	-------	-------	-------	-----------------

CYFANSWM Y RHAGLEN GYFFREDINOL

35,278	60,080	23,708	10,699
---------------	---------------	---------------	---------------

CYNGOR SIR CEREDIGION COUNTY COUNCIL

STRATEGAETH GYFALAF

1. Bydd y Cyngor yn ffurfio Rhaglen Gyfalaf aml-flwyddyn gyda'r nod o weithio tuag at orwel cynllunio ariannol Cyfalaf hirdymor.
2. Bydd yn ofynnol i holl wariant Cyfalaf a gynlluniwyd, cynigion Cyfalaf a buddsoddiad Cyfalaf arfaethedig mewn asedau sydd eisoes yn bodoli neu asedau newydd, boed hynny drwy gyllid grant neu fel arall, gefnogi Strategaeth Gorfforaethol y Cyngor ar gyfer 2022-2027 a'r Blaenoriaethau Corfforaethol sylfaenol ac amcanion cysylltiedig Gwasanaethau. Dylai Cynllunio Rheoli Asedau fod o gymorth wrth fod yn sail i bennu'r Rhaglen Gyfalaf a gwariant hanfodol ar asedau'r Cyngor sydd eisoes yn bodoli.
3. Mae'r Cyngor ar hyn o bryd yn cynnal Grŵp Rheoli Prosiectau Corfforaethol (sy'n rhoi cymorth, cyngor a chyfarwyddyd priodol i brosiectau), Grŵp Monitro Cyfalaf (sy'n rhoi rheolaeth weithredol ar gyfer gwariant Cyfalaf yn ystod y flwyddyn a'r sefyllfa ariannu) a Grŵp Datblygu (sy'n rhoi mewnbwn strategol ehangach ar gynigion a chyfleoedd datblygu Cyfalaf). Bydd gan y 3 Grŵp rôl allweddol ond mae gan bob un ohonynt eu Cylch Gorchwyl penodol eu hunain.
4. Bydd Strategaeth Rheoli Trysorlys y Cyngor yn amlinellu sut y bwriedir ymdrin â gweithgareddau sy'n ymwneud â'r Trysorlys megis Buddsoddiadau a Benthycia gan hefyd alinio'n llawn a rhoi cyfrif am gynigion y Rhaglen Gyfalaf. Bydd hefyd yn cynnwys manylion ar y lefelau benthycia arfaethedig (yn fewnol ac yn allanol) sy'n gyson â'r cynlluniau hyn a'r angen i fod yn ddarbodus. Bydd y Strategaeth Rheoli Trysorlys hefyd yn cynnwys Polisi Isafswm Refeniw'r Cyngor ar gyfer darparu ad-daliad o'r ddyled dros ei hoes.
5. Rheolir y Rhaglen Gyfalaf a Strategaeth Rheoli'r Trysorlys gan swyddogion sy'n gyfrifwyr â chymwysterau proffesiynol ac sy'n gorfod cyflawni Datblygiad Proffesiynol Gorfodol.
6. Bydd yr egwyddorion arweiniol ar gyfer cynllunio Cyfalaf presennol y Cyngor ac yn y dyfodol yn cynnwys:
 - Sicrhau effeithlonrwydd drwy wneud y defnydd gorau o asedau cyfredol sy'n cynnwys tir ac adeiladau a thechnoleg gwybodaeth. E.e. Dylid rhesymoli adeiladau gwag/na ddefnyddir yn ddigonol, lleihau costau refeniw a hefyd cynhyrchu derbyniadau cyfalaf posib.
 - Mae angen strategaeth ariannu ar gyfer pob prosiect cyfalaf mawr (wedi'i ariannu gan grant neu fel arall) fel rhan o'r achos busnes sy'n cael ei ddatblygu.
 - Bydd y Rhaglen Gyfalaf fel arfer yn cael ei phennu fel na fydd dim Benthycia Darbodus yn cael ei wneud i ariannu'r Rhaglen Gyfalaf graidd ac eithrio pan fydd yn ariannu prosiectau Cyfalaf penodol. Bydd angen achos busnes i gefnogi Benthycia Darbodus e.e. Rhoddir ystyriaeth i ddefnyddio benthycia

darbodus pan fydd yn bosib clustnodi arbedion refeniw a ddefnyddir i ariannu costau ariannol cyfalaf y buddsoddiad cyfalaf cychwynnol.

- Byddwn yn parhau i ystyried cynlluniau buddsoddi i arbed sy'n sicrhau arbedion refeniw yn dilyn buddsoddiad cyfalaf cychwynnol fel blaenoriaeth uchel am eu bod yn medru darparu cyfraniad positif i sefyllfa gyllidebol refeniw yn y tymor canolig (e.e. mesurau Effeithlonrwydd Ynni). Bydd hyn hefyd yn medru cynnwys cynlluniau sy'n fuddsoddiad cyfalaf er mwyn osgoi cynnydd mewn costau yn y dyfodol.
- Clustnodi, ysgogi a gwneud y gorau o gyfleoedd cyllid grant allanol lle y bo hynny'n bosib, er ar ei ben ei hun mae'n bosib nad yw hyn bob amser y prif beth sy'n gyrru prosiectau cyfalaf.
- Dylid ystyried strategaethau ymadael fel rhan o unrhyw gais am gyllid grant a grantiau y llwyddwyd eu denu.
- Caiff cronfeydd wrth gefn wedi'u clustnodi eu cynnal drwy ddarparu arian am un tro yn unig i gefnogi'r rhaglen Gyfalaf. Mewn achosion lle gellir cyflawni arbedion refeniw cyn gofynion y gyllideb flynyddol mae'n bosib y cânt eu dynodi i gronfeydd wrth gefn wedi'u clustnodi er mwyn cefnogi blaenoriaethau Cyfalaf yn y dyfodol. Yn benodol, bydd cyfraniad arian cyfatebol y Cyngor ar gyfer Rhaglen Ysgolion yr 21^{ain} Ganrif Band B yn cael ei gefnogi'n bennaf drwy gyllid a neilltuwyd yng nghronfa wrth gefn wedi'i chlustnodi Buddsoddi yn Nyfodol y Bobl.
- Ystyrir derbyniadau cyfalaf yn gyfraniad positif i'r rhaglen gyfalaf gyffredinol a chânt eu dyrannu yn unol â'r balans sydd ar gael ar ddechrau'r flwyddyn. Caiff rhestr o'r asedau arfaethedig y bwriedir eu gwaredu ei chynnal a'i monitro'n rheolaidd. Pan fydd angen ystyrir yn briodol unrhyw achos lle bydd asedau mawr yn cael eu gwaredu.
- Os bydd Cyfarwyddyd Cyfalafu ar gael gan Lywodraeth Cymru bydd yn cael ei ystyried a'i ddefnyddio fel, pryd ac os bydd y Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Cyllid a Chaffael fel swyddog Adran 151 yn ystyried hyn yn briodol:
- Bydd y Cyngor yn parhau i feddu ar Eiddo Buddsoddi fel rhan o'i Ystâd Gorfforaethol. Mae hwn yn weithgarwch masnachol wrth i'r Cyngor geisio roi eiddo ar brydles ar bris y farchnad a thrwy hynny cael adenillion masnachol o'r eiddo. Ar hyn o bryd mae gweithgarwch masnachol y Cyngor yn risg isel am nad yw'n elfen sylweddol yng nghyd-destun sefyllfa ariannol a chyllideb gyffredinol y Cyngor. Petai unrhyw gyfleoedd newydd yn dod ar gael bydd angen llunio achos busnes fydd yn cynnwys diwydrwydd dyladwy ariannol a chyfreithiol gan gynnwys sicrhau y cydymffurfir â gofynion y Cod Materion Ariannol (Rhagfyr 2021) sy'n gwahardd benthyca mewn sefyllfaoedd lle bo sicrhau adenillion ariannol yn brif nod, a bod defnyddio cyngor mewnol/allanol arbenigol lle y bo'n briodol yn ogystal â dilyn y trefniadau llywodraethu priodol.
- Ymgwymerir â diwydrwydd dyladwy priodol mewn perthynas â natur, graddfa a maes gweithgarwch wrth ystyried grantiau Cyfalaf i 3^{ydd} partiön o fewn y Rhaglen Gyfalaf.

7. Bydd y Cyngor yn canolbwyntio ar y meysydd blaenoriaeth allweddol canlynol yn ei Raglen Gyfalaf:

- Gweithio gyda'r sector preifat a chyhoeddus ar draws y rhanbarth drwy Bartneriaeth Tyfu Canolbarth Cymru, Bargen Twf Tyfu Canolbarth Cymru, Cronfa Ffyniant Gyffredin y DU a'r Gronfa Ffyniant Bro, er mwyn hybu'r economi leol a rhanbarthol.
 - Gweithredu Strategaeth Economaidd Ceredigion
- a) Creu cymunedau gofalgwr ac iach gan gynnwys
- Darparu arian ar gyfer grantiau Cyfleusterau mandadol a dewisol i'r Anabl.
 - Adolygu a datblygu cynlluniau llety preswyl arbenigol naill ai gan y Cyngor neu ar y cyd â Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig a phartneriaid eraill.
 - Cylch Caron – prosiect Bwrdd Gwasanaethau Lleol Ceredigion i ddarparu gofal iechyd a gofal cymdeithasol yn ardal Tregaron
 - Sefydlu canolfannau lles
- b) Darparu'r dechrau gorau mewn bywyd a galluogi dysgu o bob oed gan gynnwys
- Parhau i foderneiddio Ysgolion drwy raglen Ysgolion yr 21ain Ganrif a llwybrau ariannu eraill.
- c) Creu cymunedau cynaliadwy, gwyrdd gyda chysylltiadau da gan gynnwys
- Datblygu cynlluniau Amddiffyn yr Arfordir
 - Rheoli Carbon - Ceisio lleihau ymhellach gollyngiadau carbon a gostwng costau ynni gymaint â phosib er mwyn mynd i'r afael â chynnydd yn y dyfodol drwy alluogi mesurau effeithlonrwydd ynni yn asedau'r Cyngor yn ogystal â'r stoc breifat a stoc Tai Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig.
 - Cerbydau newydd – Adolygu fflyd ehangach yr awdurdod ar draws holl wasanaethau a phontio tuag at fflyd Cerbydau Allyriadau Isel lawn.
 - Gwelliannau hanfodol i Adeiladau, Pontydd a Ffyrdd.

ATODIAD B

CYNIGION AR GYFER GWNEUD ARBEDION YN Y GYLLIDEB

Cymunedau Iachach

**Y CYNIGION AR GYFER LLEIHOU COSTAU / GWNEUD ARBEDION YNG
NGHYLLIDEB 2023/24**

Pwyllgor Trosolwg a Chraffu:	Cymunedau Iachach
Gwasanaeth:	Porth Cynnal
Aelod Cabinet a Phortffolio Cabinet:	Y Cyngorydd Alun Williams Aelod Cabinet dros y Gwasanaethau Gydol Oes a Llesiant
Cefndir:	Cyfanswm arfaethedig yr arbedion yng nghyllideb y Cyngor ar gyfer 23/24 yw £8.862m. Mae'r Cyngor yn dilyn dull corfforaethol o weithredu er mwyn cyflawni hyn, gan gynnwys targed o £3.075m fel rhan o 'Gwneud Pethau'n Wahanol: Dull Corfforaethol o Weithredu'.
Y Targed o ran Lleihau Costau / Gwneud Arbedion 2023/24:	£99k
Y gyllideb bresennol:	£28.602m
Sut caiff y cynigion ar gyfer lleihau costau / gwneud arbedion yn y gyllideb eu cyflawni?	<ol style="list-style-type: none"> <u>Gostyngiad yng nghyfradd cyflogwyr Cronfa Bensiwn Dyfed - £782k</u> Mae'r gwasanaeth yn disgwyl y bydd yn cyfrannu £49k at yr arbediad hwn. <u>Gwneud Pethau'n Wahanol: Dull Corfforaethol o Weithredu - £3.075m</u> £50k yw'r targed i gychwyn yn 23/24 o dan y Ffrwd Waith Meithrin Cyfleoedd. Mae'r Gwasanaeth Maethu yn rhan o Wasanaeth Porth Gofal yn y strwythur Gydol Oes a Llesiant ac mae'n darparu lleoliadau i blant sy'n cael llety gan yr awdurdod lleol pan nad yw'n ddiogel iddynt aros gyda'u rhieni. Mae'r Gwasanaeth Maethu'n canfod lleoliadau addas ar gyfer plant sy'n dod o dan dimoedd plant Porth Cynnal. Bydd arbedion yn cael eu gwneud drwy wella effeithlonrwydd y Gwasanaeth Maethu drwy'r fenter Maethu Cyfleoedd a fydd yn lleihau costau'n uniongyrchol o ran y lleoliadau sydd angen eu prynu oddi wrth y

		<p>timoedd Porth Cynnal. Cyflawnir yr arbedion drwy wneud y canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Sicrhau bod mwy o ofalwyr maeth wedi'u cymeradwyo gan Gyngor Sir Ceredigion sy'n gallu cynnig lleoliadau i blant yn agos at eu cymunedau. • Bydd ymgyrch recriwtio penodol yn cael ei gynnal er mwyn asesu a chymeradwyo mwy o ofalwyr maeth mewnol yn y sir. • Byddwn yn parhau i weithio gyda Maethu Cymru i wella'r cynnig i ofalwyr maeth o ran lwfansau a hyfforddiant er mwyn gallu gwneud y cynnig gorau posib i'n gofalwyr maeth. <p>Bydd yr arbedion yn cael eu cyflawni drwy leihau ein defnydd o leoliadau 'er elw' yr Asiantaethau Maethu Annibynnol. Mae'r rhan hon o ofal cymdeithasol yn un sy'n fuddiol yn fasnachol i Asiantaethau Maethu Annibynnol sy'n aml yn targedu gofalwyr maeth yr awdurdod lleol i ddatblygu eu busnesau 'er elw'.</p>
A ystyriwyd ffordd arall o ddarparu'r gwasanaeth?	Cydweithio	Parheir i ymgysylltu â Maethu Cymru er mwyn ystyried a datblygu opsiynau eraill ar gyfer darparu'r gwasanaeth.
	Integreiddio	Amherthnasol
A fydd y cynigion ar gyfer lleihau costau / gwneud arbedion yn y gyllideb yn cael effaith ar ddinasyddion neu ai arbedion mewnol yn unig yw'r rhain?		<p>Mewnol <input type="checkbox"/></p> <p>Dinasyddion <input checked="" type="checkbox"/></p> <p>Yr effaith ar blant a theuluoedd fydd eu bod yn gallu cael lleoliadau o fewn eu hardaloedd lleol a chynnal cysylltiadau â'u teuluoedd, ysgolion a rhwydweithiau cymdeithasol.</p>
Beth fydd effaith a chanlyniadau'r cynigion ar gyfer gwneud arbedion yn y	Tymor byr:	Llai o wariant ar brynu lleoliadau allanol.
	Tymor hir:	Llai o wariant ar brynu lleoliadau. Bydd y cynnydd graddol yn nifer y gofalwyr maeth mewnol dros amser yn darparu opsiynau o ran paru er mwyn lleoli plant gyda'r teulu maeth mwyaf addas i fodloni eu hanghenion yn lleol.

tymor byr / tymor hir?		
Ydych chi wedi ymgynghori â'r rhanddeiliaid ar y cynnig? Beth oedd yr adborth?		Mae sesiynau adborth ynghylch Gofal Maeth wedi'u trefnu i gychwyn ar 23 Ionawr 2023.
Swyddog Arweiniol Corfforaethol:		Audrey Somerton-Edwards Swyddog Arweiniol Corfforaethol Dros Dro: Porth Cynnal

**Y CYNIGION AR GYFER LLEIHOU COSTAU / GWNEUD ARBEDION YNG
NGHYLLIDEB 2023/24**

Pwyllgor Trosolwg a Chraffu:	Cymunedau Iachach
Gwasanaeth:	Porth Gofal
Aelod Cabinet a Phortffolio Cabinet:	Y Cyngorydd Alun Williams
Cefndir:	Cyfanswm arfaethedig yr arbedion yng nghyllideb y Cyngor ar gyfer 23/24 yw £8.862m. Mae'r Cyngor yn dilyn dull corfforaethol o weithredu er mwyn cyflawni hyn, gan gynnwys targed o £3.075m fel rhan o 'Gwneud Pethau'n Wahanol: Dull Corfforaethol o Weithredu'.
Y Targed o ran Lleihau Costau / Gwneud Arbedion 2023/24:	£125k
Y gyllideb bresennol:	£13.603m
Sut caiff y cynigion ar gyfer lleihau costau / gwneud arbedion yn y gyllideb eu cyflawni?	<p>1. <u>Gwneud Pethau'n Wahanol: Dull Corfforaethol o Weithredu - £3.075m</u></p> <p>Bydd Porth Gofal yn cyfrannu at 4 ffrwd waith allweddol sydd wedi'u sefydlu:</p> <ul style="list-style-type: none"> Datrysiadau digidol i gynorthwyo'r gwasanaethau gofal yn y cartref gyda'r disgwyliad i gwtogi pecynnau gofal, mynd ati mewn ffordd wahanol i gynorthwyo'r sawl sy'n cael eu rhyddhau o'r ysbyty, a rheoli disgwyliadau defnyddwyr y gwasanaeth / y gofalwyr. Adolygu'r rhestr aros yn rheolaidd er mwyn cwtdogi'r pecynnau gofal lle bo hynny'n addas. Nid oes unrhyw arbedion wedi'u priodoli ar gyfer y ffrwd waith hon eto gan ei bod newydd ddechrau. Datblygu darpariaeth o ofal preswyl yn y sir ar gyfer plant sydd ag anghenion cymhleth. Dylai'r ffrwd waith hon greu arbedion yn y tymor canolig ond nid yn ystod 2023/24. Mwy o gyfleoedd i faethu – gan gael gwared ar yr angen i leoli plant yn y sector annibynnol, sy'n gostus iawn. Bydd yr arbedion disgwyliedig o'r ffrwd

		<p>waith hon (£50k i ddechrau) i'w gweld o dan y pennawd Porth Cynnal.</p> <ul style="list-style-type: none"> Mae'r ffioedd a'r costau'n cael eu hadolygu ar draws holl wasanaethau Porth Gofal er mwyn sicrhau bod costau chwyddiant a chostau ynni'n cael eu hystyried, a chynyddir y ffioedd a'r costau lle bo hynny'n addas. <p>2. <u>Gostyngiad yng nghyfradd cyflogwyr Cronfa Bensiwn Dyfed - £782k</u> Mae'r gwasanaeth yn disgwyl y bydd yn cyfrannu £125k at yr arbediad hwn.</p>
A ystyriwyd ffordd arall o ddarparu'r gwasanaeth?	Cydweithio	Mae gweithio rhanbarthol a chydweithio â phartneriaid allweddol a rhanddeiliaid yn digwydd ar bob cyfle.
	Integreiddio	Amherthnasol
A fydd y cynigion ar gyfer lleihau costau / gwneud arbedion yn y gyllideb yn cael effaith ar ddinasyddion neu ai arbedion mewnol yn unig yw'r rhain?		<p>Mewnol yn unig</p> <p>Dinasyddion <input type="checkbox"/></p>
Beth fydd effaith a chanlyniadau'r cynigion ar gyfer gwneud arbedion yn y tymor byr / tymor hir?	Tymor byr:	Effaith bach iawn yn y tymor byr. Bydd angen cymryd amser cyn cyflwyno'r cynigion er mwyn sicrhau bod y gwaith priodol yn cael ei gyflawni.
	Tymor hir:	
A ydych chi wedi ymgynghori â'r rhanddeiliaid ar y cynnig? Beth oedd yr adborth?		Cynhelir trafodaethau yn rhanbarthol gyda'r sector iechyd a'r awdurdodau lleol.
Swyddog Arweiniol Corfforaethol:		Donna Pritchard Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Porth Gofal

**Y CYNIGION AR GYFER LLEIHOU COSTAU / GWNEUD ARBEDION YNG
NGHYLLIDEB 2023/24**

Pwyllgor Trosolwg a Chraffu:	Cymunedau Iachach
Gwasanaeth:	Polisi, Perfformiad a Diogelu'r Cyhoedd (Yr elfennau Diogelu'r Cyhoedd yn unig)
Aelod Cabinet a Phortffolio Cabinet:	Y Cynghorydd Mathew Vaux Aelod Cabinet dros Bartneriaethau, Tai, y Gwasanaethau Cyfreithiol a Llywodraethu, a Diogelu'r Cyhoedd
Cefndir:	Cyfanswm arfaethedig yr arbedion yng nghyllideb y Cyngor ar gyfer 23/24 yw £8.862m. Mae'r Cyngor yn dilyn dull corfforaethol o weithredu er mwyn cyflawni hyn, gan gynnwys targed o £3.075m fel rhan o 'Gwneud Pethau'n Wahanol: Dull Corfforaethol o Weithredu'.
Y Targed o ran Lleihau Costau / Gwneud Arbedion 2023/24:	£30k
Y gyllideb bresennol:	£1.265m ar gyfer Diogelu'r Cyhoedd (£2.34m yw'r gyllideb ar gyfer y Gwasanaeth Polisi, Perfformiad a Diogelu'r Cyhoedd yn ei gyfanrwydd, gan gynnwys y costau y mae'r Swyddog Arweiniol Corfforaethol wedi cyllidebu ar eu cyfer)
Sut caiff y cynigion ar gyfer lleihau costau / gwneud arbedion yn y gyllideb eu cyflawni?	<ol style="list-style-type: none"> <u>Gostyngiad yng nghyfradd cyflogwyr Cronfa Bensiwn Dyfed - £782k</u> Mae'r Gwasanaeth Polisi, Perfformiad a Diogelu'r Cyhoedd yn ei gyfanrwydd yn disgwyl y bydd yn cyfrannu £30k at yr arbediad hwn. <u>Ffioedd a Chostau</u> Mae'r ffioedd a'r costau unigol i'w gweld yn Atodiad C. Cynigir bod y ffioedd a'r costau yn codi yn unol â chwyddiant cyflogau staff. Ni ellir codi rhai oherwydd terfynau statudol. Fodd bynnag, bydd y ffioedd ar gyfer trwyddedau bridio cŵn yn codi yn sylweddol er mwyn adfer costau'n llawn yn sgil yr arferion archwilio newydd sy'n well ac yn hwy. <u>Cyllid grant yn dod at ei derfyn</u>

		<p>Er nad oes unrhyw ostyngiad i'r gyllideb graidd, daw 2 ffrwd o gyllid grant i ben eleni a fydd yn cael effaith ar y gwasanaeth. Bydd y cyllid ar gyfer dau swyddog gorfodi dros dro, a ariannwyd drwy'r gronfa caledi COVID dros y ddwy flynedd ddiwethaf, yn dod i ben gan fod y grant yn cael ei ymgorffori yng nghyllideb sylfaenol yr awdurdod lleol. Bydd y cyllid ar gyfer y Cydlynnydd Adnoddau Naturiol a Llesiant rhan amser yn dod i ben hefyd wrth i'r prosiect ddod at ei derfyn yn unol â'r cynllun.</p> <p>Mae gan y staff contract hyd at ddiwedd mis Mawrth. Wedi hynny bydd y swyddi'n cael eu dileu o'r strwythur.</p>
A ystyriwyd ffordd arall o ddarparu'r gwasanaeth?	Cydweithio	Amherthnasol
	Integreiddio	Mae'r ddwy swydd gorfodi eisoes wedi'u hintegreiddio i waith y gwasanaeth. Nid ydy'r Cydlynnydd Adnoddau Naturiol a Llesiant wedi'i integreiddio gymaint i mewn i waith y tîm o ddydd i ddydd.
A fydd y cynigion ar gyfer lleihau costau / gwneud arbedion yn y gyllideb yn cael effaith ar ddinasyddion neu ai arbedion mewnol yn unig yw'r rhain?		<p>Mewnol - Bydd</p> <p>Dinasyddion - Bydd</p> <p>O ran y Swyddogion Gorfodi, bydd hyn yn cael effaith ar ein gallu i ddarparu'r gwasanaethau diogelu'r cyhoedd i gyd gan eu bod ar hyn o bryd yn cyflawni ystod eang o dasgau er mwyn rhyddhau'r staff profiadol fel eu bod yn gallu gwneud yr ymchwiliadau mwyaf cymhleth a'r archwiliadau hylendid bwyd risg uchel. Hefyd, maent yn gorfodi amodau trwyddedu ar draws ystod o weithgareddau. Efallai bydd yn rhaid i'r cyhoedd aros yn hirach am rai gwasanaethau.</p>
Beth fydd effaith a chanlyniadau'r cynigion ar gyfer gwneud arbedion yn y tymor byr / tymor hir?	Tymor byr:	Gallai'r gostyngiad yng nghapasiti tîm y gwasanaeth diogelu'r cyhoedd effeithio ein heffeithlonrwydd ac effeithiolrwydd wrth i'r gwasanaeth weithio tuag at leihau'r gwaith sydd wedi ôl-gronni yn sgil COVID.
	Tymor hir:	Bydd y gwasanaeth yn canolbwyntio ar broblemau adweithiol oherwydd mae'n bosib na fydd capasiti i gyflawni archwiliadau rhagweithiol.

Ydych chi wedi ymgynghori â'r rhanddeiliaid ar y cynnig? Beth oedd yr adborth?	Mae'r trafodaethau anffurfiol â'r Awdurdod Safonau Bwyd yn parhau. Maent yn disgwyl i'r Awdurdod gyflawni archwiliadau Safonau Bwyd, Hylendid Bwyd a Bwyd Anifeiliaid.
Swyddog Arweiniol Corfforaethol:	Alun Williams Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Polisi, Perfformiad a Diogelu'r Cyhoedd

**Y CYNIGION AR GYFER LLEIHOU COSTAU / GWNEUD ARBEDION YNG
NGHYLLIDEB 2023/24**

Pwyllgor Trosolwg a Chraffu:	Cymunedau Iachach
Gwasanaeth:	Gwasanaethau Porth Cymorth Cynnar
Aelod Cabinet a Phortffolio Cabinet:	<p>Y Cyngorydd Alun Williams - Dirprwy Arweinydd y Cyngor Aelod Cabinet dros y Gwasanaeth Gydol Oes a Llesiant</p> <p>Y Cyngorydd Catrin M.S.Davies Aelod Cabinet dros Ddiwylliant, Hamdden a'r Gwasanaethau Cwsmeriaid</p> <p>Y Cyngorydd Wyn Thomas Aelod Cabinet dros Ysgolion, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau</p>
Cefndir:	<p>Cyfanswm arfaethedig yr arbedion yng nghyllideb y Cyngor ar gyfer 23/24 yw £8.862m. Mae'r Cyngor yn dilyn dull corfforaethol o weithredu er mwyn cyflawni hyn, gan gynnwys targed o £3.075m fel rhan o 'Gwneud Pethau'n Wahanol: Dull Corfforaethol o Weithredu'.</p> <p>Nid yw Gwasanaethau Porth Cymorth Cynnar yn arwain unrhyw brosiectau corfforaethol ond mae Rheolwyr Corfforaethol y gwasanaethau ar draws Porth Cymorth Cynnar yn mynd i'r grwpiau prosiect perthnasol ac maent yn cyfrannu atynt.</p>
Y Targed o ran Lleihau Costau / Gwneud Arbedion 2023/24:	£73k
Y gyllideb bresennol:	£4.355m (holl gyllideb Porth Cymorth Cynnar). Mae £1.254m o'r ffigwr hwn ar gyfer y Canolfannau Lles.
Sut caiff y cynigion ar gyfer lleihau costau / gwneud arbedion yn y gyllideb eu cyflawni?	<p>1. <u>Gwneud Pethau'n Wahanol: Dull Corfforaethol o Weithredu - £3.075m</u> Bydd Gwasanaethau Porth Cymorth Cynnar yn cyfrannu'n weithredol at y canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Yr adolygiad o gludiant i ddysgwyr (daw'r Unedau Cyfeirio Disgyblion a'r ddarpariaeth o ran y Cwricwlwm Amgen o dan y Gwasanaeth Dysgu Gydol Oes a Sgiliau)

	<ul style="list-style-type: none"> • Yr asesiad o'r incwm ychwanegol a ddaw o feysydd parcio (Gwasanaeth y Canolfannau Lles) • Yr adolygiad o'r Ffioedd a'r Costau (Gwasanaeth y Canolfannau Lles a'r Gwasanaeth Ymyrraeth Gynnar). <p>2. <u>Gostynqiad yng nghyfradd cyflogwyr Cronfa Bensiwn Dyfed - £782k</u> Mae'r gwasanaeth Porth Cymorth Cynnar yn ei gyfanrwydd yn disgwyl y bydd yn cyfrannu £73k at yr arbediad hwn.</p> <p>3. <u>Ffioedd a Chostau</u> Mae'r ffioedd a'r costau unigol i'w gweld yn Atodiad C.</p> <ul style="list-style-type: none"> • Adolygwyd y ffioedd a'r costau i gyd gan Wasanaeth y Canolfannau Lles er mwyn sicrhau lefel gyson o ffioedd / costau ar gyfer gweithgareddau a chyfleusterau ar draws y Sir. Mae'r gwasanaeth hefyd wedi cwblhau ymarfer i gymharu'r rhain ag awdurdodau lleol cyfagos. Mae nifer o'r newidiadau arfaethedig i'r ffioedd / costau yn gysylltiedig â'r gyfradd chwyddiant bresennol a'r cynnydd mewn costau ynni, ond mae rhai yn ffioedd a ail-gyfrifwyd neu'n ffioedd newydd ar gyfer y gwasanaeth. • Mae'r cynnydd yn y ffioedd a'r costau ar gyfer hurio cyfleusterau yn y Gwasanaeth Ymyrraeth Gynnar yn gysylltiedig â'r gyfradd chwyddiant bresennol a'r cynnydd mewn costau ynni. 	
A ystyriwyd ffordd arall o ddarparu'r gwasanaeth?	Cydweithio	Amherthnasol
	Integreiddio	Amherthnasol
A fydd y cynigion ar gyfer lleihau costau / gwneud arbedion yn y gyllideb yn cael effaith ar ddinasyddion neu ai arbedion mewnol yn unig yw'r rhain?	Mewnol <input type="checkbox"/> Dinasyddion <input type="checkbox"/>	

Beth fydd effaith a chanlyniadau'r cynigion ar gyfer gwneud arbedion yn y tymor byr / tymor hir?	Tymor byr:	
	Tymor hir:	
Ydych chi wedi ymgynghori â'r rhanddeiliaid ar y cynnig? Beth oedd yr adborth?	Er mwyn sicrhau prisiau tebyg ar gyfer gwasanaethau tebyg, cafwyd trafodaethau â phartneriaid rhanbarthol ac awdurdodau lleol cyfagos. Mae gan Wasanaeth y Canolfannau Lles brisiau a bennwyd yn strategol yn seiliedig ar chwyddiant a'r cynnydd mewn costau ynni.	
Swyddog Arweiniol Corfforaethol:	Elen James Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Porth Cymorth Cynnar	

Cymunedau sy'n Dysgu

**Y CYNIGION AR GYFER LLEIHOU COSTAU / GWNEUD ARBEDION YNG
NGHYLLIDEB 2023/24**

Pwyllgor Trosolwg a Chraffu:	Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau sy'n Dysgu
Gwasanaeth:	Gwasanaeth Ysgolion a Diwylliant
Aelod Cabinet a Phortffolio Cabinet:	Y Cyngorydd Wyn Thomas Y Cyngorydd Catrin M S Davies
Cefndir:	Cyfanswm arfaethedig yr arbedion yng nghyllideb y Cyngor ar gyfer 23/24 yw £8.862m. Mae'r Cyngor yn dilyn dull corfforaethol o weithredu er mwyn cyflawni hyn, gan gynnwys targed o £3.075m fel rhan o 'Gwneud Pethau'n Wahanol: Dull Corfforaethol o Weithredu.
Y Targed o ran Lleihau Costau / Gwneud Arbedion 2023/24:	£2.260m (+ £500k arall sydd i'w weld o dan bennawd y Grŵp Arweiniol)
Y gyllideb bresennol:	£50.887m (gan gynnwys £44.7m sydd wedi'i ddirprwyo i'r ysgolion)
Sut caiff y cynigion ar gyfer lleihau costau / gwneud arbedion yn y gyllideb eu cyflawni?	<p>1. Gwneud Pethau'n Wahanol: Dull Corfforaethol o Weithredu - £3.075m Mae'r gwasanaeth Ysgolion a Diwylliant yn arwain nifer o ffrydiau gwaith, gan gynnwys:</p> <p>i) <u>Yr Adolygiad o Gludiant i Ddysgwyr - £400k (sydd i'w weld o dan bennawd y Grŵp Arweiniol)</u> Mae gweithgor sy'n cynnwys nifer o wasanaethau wedi cwrdd i drafod opsiynau ar gyfer gwneud arbedion o ran cludiant i ddysgwyr. Bydd hyn yn cynnwys adolygu'r ddarpariaeth dacsis ar gyfer y ddarpariaeth rhwng y cartref a'r ysgol gan gynnwys y ddarpariaeth dacsis o ran y canlynol: disgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol; yr Unedau Cyfeirio Disgyblion, y Cwricwlwm Amgen, Plant sy'n Derbyn Gofal. Bydd y gweithgor hefyd yn adolygu llwybrau bysiau rhwng y cartref a'r ysgol.</p> <p>ii) <u>Adolygiad strategol o'r ysgolion Cynradd - £100k (sydd i'w weld o dan bennawd y Grŵp Arweiniol)</u></p>

Caiff papur sy'n amlinellu'r egwyddorion ynghylch seilwaith cynaliadwy ar gyfer ysgolion ei gyflwyno gerbron y Pwyllgor Craffu a'r Cabinet yng ngwanwyn 2023. Mae'r targed o ran arbedion yn un mewn enw yn unig (*nominal*) ac mewn gwirionedd, dim ond o 2024/25 ymlaen y bydd arbedion sylweddol yn cael eu gwireddu felly mae'r arbedion hyn yn rhan o'r arbedion Tymor Canolig.

iii) Ffioedd a Chostau

Mae'r ffioedd a'r costau unigol i'w gweld yn Atodiad C. Mae ffioedd a chostau'r Gwasanaeth Ysgolion a Diwylliant yn adlewyrchu'r cynnydd mewn costau staff ac ynni, yn benodol o ran llogi ystafelloedd / cyfleusterau.

O ran oedolion sy'n ymweld ag Amgueddfa Ceredigion, cynigir codi ffi mynediad o £5 yr un ar bob oedolyn nad ydynt yn byw yng Ngheredigion.

Nid yw ffioedd y Gwasanaeth Cerdd wedi cynyddu ers 2018. Mae'r cynnydd a gynigir ar gyfer 23/24 yn ymwneud â'r cynnydd mewn costau staffio a theithio ac mae'r ffi ar gyfer y rheiny sy'n dysgu ail offeryn wedi'i chodi i fod yr un fath â'r ffi ar gyfer yr offeryn cyntaf.

Cynigir bod prydau ysgol yn cynyddu i £2.90 (+11.5%) am bob pryd ac mae hyn yn unol â chwyddiant a'r cynnydd mewn costau staffio. O gyfnod y Pasg 2023 ymlaen, bydd disgyblion ym mlynnyddoedd 3 a 4 hefyd yn elwa o'r cynnig i roi prydau ysgol am ddim i blant mewn ysgolion cynradd. Y bwriad yw cynnwys blynyddoedd 5 a 6 erbyn Medi 2023. Ni fydd y cynnydd hwn felly yn arwain at gostau i deuluoedd. Fodd bynnag, bydd yn golygu y bydd y gyfradd fesul uned yn cyd-fynd â'r gyfradd a ddefnyddir gan Lywodraeth Cymru (er bod hyn yn destun adolygiad). Pe byddai cyfradd fesul uned Llywodraeth Cymru yn cynyddu yn sgil yr adolygiad, byddai angen hefyd i gyfradd Ceredigion gynyddu er mwyn osgoi colli cyllid. Nid yw £2.90 yn ddigon i dalu am y gost lawn o ddarparu pryd. Yn seiliedig ar brisiau 2022/23, amcangyfrifir bod y gost honno ar y cyfan rhwng £3.18 a £3.57.

	<p>2. <u>Gostyngiad yng nghyfradd cyflogwyr Cronfa Bensiwn Dyfed - £782k</u> Mae'r gwasanaeth Ysgolion a Diwylliant yn disgwyl y bydd yn cyfrannu £195k at yr arbediad hwn.</p> <p>3. <u>Arbedion o'r Cyllidebau a Ddirprwyir i'r Ysgolion - £2.065m</u> Bydd angen i'r Cyllidebau a Ddirprwyir i'r Ysgolion ddarparu arbedion tuag at darged cyffredinol y Cyngor.</p> <p>Yn seiliedig ar gynyddu Treth y Cyngor 7.3%, cynigir cynnydd o 5.8% yn y Cyllidebau a Ddirprwyir i'r Ysgolion yn 23/24. Mae hyn yn cynnwys effaith blwyddyn gyfan y cynnydd o 5% o ran Dyfarniad Cyflog yr Athrawon ym mis Medi 2022, cynnydd dangosol o 3.5% o ran Dyfarniad Cyflog yr Athrawon am ran o flwyddyn 23/24 o fis Medi 2023 ymlaen a chyllid ar gyfer y pwysau o ran costau ynni.</p> <p>Pe byddai Treth y Cyngor yn codi 8.3%, byddai yna gynydd o 6.7% yn y Cyllidebau a Ddirprwyir i'r Ysgolion a byddai'r arbedion y byddai angen i'r ysgolion eu gwneud yn gostwng o £2.1m i oddeutu £1.7m. Byddai cynnydd o 6.3% yn Nhreth y Cyngor yn golygu y byddai'r arbedion y byddai angen i'r ysgolion eu gwneud yn cynyddu o £2.1m i oddeutu £2.5m.</p> <p>Erbyn diwedd blwyddyn ariannol 22/23, amcangyfrifir y bydd cronfeydd wrth gefn y Cyllidebau a Ddirprwyir i Ysgolion oddeutu £4m.</p> <p>Cyrff Llywodraethol yr ysgolion unigol fydd yn gyfrifol am yr arbedion fydd angen eu gwneud o fewn cyllidebau eu hysgolion a bydd yr arbedion hyn yn cyfateb i gyfanswm o £2.1m (yn seiliedig ar gynydd o 7.3% yn Nhreth y Cyngor)</p>
<p>A ystyriwyd ffordd arall o ddarparu'r gwasanaeth?</p>	<p>Cydweithio</p> <p>Mae'r Gwasanaeth Ysgolion a Diwylliant yn cydweithio ag Awdurdod Lleol Powys drwy Bartneriaeth Addysg Canolbarth Cymru ar rai agweddau ar gefnogaeth i ysgolion. Mae hyn</p>

		felly yn osgoi dyblygu wrth ddarparu gwasanaethau.
	Integreiddio	Fel y nodir uchod
A fydd y cynigion ar gyfer lleihau costau / gwneud arbedion yn y gyllideb yn cael effaith ar ddinasyddion neu ai arbedion mewnol yn unig yw'r rhain?		Mewnol <input type="checkbox"/> Bydd Dinasyddion <input type="checkbox"/> Bydd
Beth fydd effaith a chanlyniadau'r cynigion ar gyfer gwneud arbedion yn y tymor byr / tymor hir?	Tymor byr:	Mae'n bosib y bydd angen gwneud trefniadau amgen ar gyfer cludiant er mwyn sicrhau bod cyllidebau cludiant yn cael eu defnyddio'n fwy effeithlon. Mae'n bosib y bydd angen i rai ysgolion unigol adolygu eu trefniadau staffio a lleihau staff yn unol â'u cyllideb. Mae'n bosib y bydd gwargedau presennol yr ysgolion yn rhoi rhywfaint o amser iddynt i flaengynllunio.
	Tymor hir:	Bydd angen ystyried penderfyniadau ynghylch seilwaith cynaliadwy ar gyfer ysgolion yn y dyfodol.
A ydych chi wedi ymgynghori â'r rhanddeiliaid ar y cynnig? Beth oedd yr adborth?		Cyfarfod o'r Fforwm Cyllidebau Ysgolion a gynhaliwyd ar 06/02/23.
Swyddog Arweiniol Corfforaethol:		Meinir Ebbsworth

**Y CYNIGION AR GYFER LLEIHOU COSTAU / GWNEUD ARBEDION YNG
NGHYLLIDEB 2023/24**

Pwyllgor Trosolwg a Chraffu:	Cymunedau sy'n Dysgu
Gwasanaeth:	Gwasanaethau Porth Cymorth Cynnar
Aelod Cabinet a Phortffolio Cabinet:	<p>Y Cyngorydd Alun Williams - Dirprwy Arweinydd y Cyngor Aelod Cabinet dros y Gwasanaeth Gydol Oes a Llesiant</p> <p>Y Cyngorydd Catrin M.S.Davies Aelod Cabinet dros Ddiwylliant, Hamdden a'r Gwasanaethau Cwsmeriaid</p> <p>Y Cyngorydd Wyn Thomas Aelod Cabinet dros Ysgolion, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau</p>
Cefndir:	<p>Cyfanswm arfaethedig yr arbedion yng nghyllideb y Cyngor ar gyfer 23/24 yw £8.862m. Mae'r Cyngor yn dilyn dull corfforaethol o weithredu er mwyn cyflawni hyn, gan gynnwys targed o £3.075m fel rhan o 'Gwneud Pethau'n Wahanol: Dull Corfforaethol o Weithredu.</p> <p>Nid yw Gwasanaethau Porth Cymorth Cynnar yn arwain unrhyw brosiectau Corfforaethol ond mae Rheolwyr Corfforaethol y gwasanaethau ar draws Porth Cymorth Cynnar yn mynd i'r grwpiau prosiect perthnasol ac maent yn cyfrannu atynt.</p>
Y Targed o ran Lleihau Costau / Gwneud Arbedion 2023/24:	£73k
Y gyllideb bresennol:	£4.355m (holl gyllideb Porth Cymorth Cynnar). Mae £1.254m o'r ffigwr hwn ar gyfer y Canolfannau Lles (sy'n dod o dan y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau Iachach).
Sut caiff y cynigion ar gyfer lleihau costau / gwneud arbedion yn y gyllideb eu cyflawni?	<ol style="list-style-type: none"> <u>Gostyngiad yng nghyfradd cyflogwyr Cronfa Bensiwn Dyfed - £782k</u> Mae gwasanaeth Porth Cymorth Cynnar yn ei gyfanrwydd yn disgwyl y bydd yn cyfrannu £73k at yr arbediad hwn. Gwneud Pethau'n Wahanol: Dull Corfforaethol o Weithredu - £3.075m

		<p>Bydd Gwasanaethau Porth Cymorth Cynnar yn cyfrannu'n weithredol at y canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Yr adolygiad o'r holl gludiant i ddysgwyr (daw'r Unedau Cyfeirio Disgyblion a'r ddarpariaeth o ran y Cwricwlwm Amgen o dan y Gwasanaeth Dysgu Gydol Oes a Sgiliau) • Yr asesiad o'r incwm ychwanegol a ddaw o feysydd parcio (Gwasanaeth y Canolfannau Lles) • Yr adolygiad o'r Ffioedd a'r Costau (Gwasanaeth y Canolfannau Lles a'r Gwasanaeth Ymyrraeth Gynnar) <p>3. <u>Ffioedd a Chostau</u> Mae'r ffioedd a'r costau unigol i'w gweld yn Atodiad C.</p> <p>Mae'r ffioedd a'r costau wedi'u hadolygu ar draws gwasanaethau Porth Cymorth Cynnar. Mae nifer o'r newidiadau arfaethedig yn y ffioedd/costau yn gysylltiedig â'r gyfradd chwyddiant bresennol a'r cynnydd mewn costau ynni.</p>
A ystyriwyd ffordd arall o ddarparu'r gwasanaeth?	Cydweithio	Ddim yn berthnasol
	Integreiddio	Ddim yn berthnasol
A fydd y cynigion ar gyfer lleihau costau / gwneud arbedion yn y gyllideb yn cael effaith ar ddinasyddion neu ai arbedion mewnol yn unig yw'r rhain?		<p>Mewnol <input type="checkbox"/></p> <p>Dinasyddion <input type="checkbox"/></p>
Beth fydd effaith a chanlyniadau'r cynigion ar gyfer gwneud arbedion yn y tymor byr / tymor hir?	Tymor byr:	Er mwyn sicrhau bod y gyllideb ar gyfer cludiant yn cael ei defnyddio'n fwy effeithlon, bydd angen ystyried / treialu opsiynau ar gyfer trefniadau teithio amgen.
	Tymor hir:	

A ydych chi wedi ymgynghori â'r rhanddeiliaid ar y cynnig? Beth oedd yr adborth?	
Swyddog Arweiniol Corfforaethol:	Elen James Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Porth Cymorth Cynnar

Cymunedau Ffyniannus

**Y CYNIGION AR GYFER LLEIHOU COSTAU / GWNEUD ARBEDION YNG
NGHYLLIDEB 2023/24**

Pwyllgor Trosolwg a Chraffu:	Cymunedau Ffyniannus
Gwasanaeth:	Priffyrdd a Gwasanaethau Amgylcheddol
Aelod Cabinet a Phortffolio Cabinet:	Y Cynghorydd Keith Henson Yr Aelod Cabinet ar gyfer Priffyrdd a Gwasanaethau Amgylcheddol a Rheoli Carbon
Cefndir:	Cyfanswm arfaethedig yr arbedion yng nghyllideb y Cyngor ar gyfer 23/24 yw £8.862m. Mae'r Cyngor yn dilyn dull corfforaethol o weithredu er mwyn cyflawni hyn, gan gynnwys targed o £3.075m fel rhan o 'Gwneud Pethau'n Wahanol: Dull Corfforaethol o Weithredu'.
Y Targed o ran Lleihau Costau / Gwneud Arbedion 2023/24:	£851k (+ £400k pellach wedi'i ddangos o dan y Grŵp Arweiniol)
Y gyllideb bresennol:	£18.078m
Sut caiff y cynigion ar gyfer lleihau costau / gwneud arbedion yn y gyllideb eu cyflawni?	<p>1. <u>Gwneud Pethau'n Wahanol: Dull Corfforaethol o Weithredu - £3.075m</u> Mae Priffyrdd a Gwasanaethau Amgylcheddol yn ymwneud â sawl ffrwd waith, sef:</p> <p>i) <u>Adolygiad o Gludiant i Ddysgwyr - £400k (wedi'i ddangos o dan y Grŵp Arweiniol)</u> Mae gweithgor sy'n cynnwys nifer o wasanaethau wedi cyfarfod i drafod opsiynau ar gyfer gwneud arbedion o ran cludiant i ddysgwyr. Bydd hyn yn cynnwys adolygiad o ddarpariaeth tacsis ar gyfer cludiant rhwng y cartref a'r ysgol gan gynnwys darpariaeth tacsis ar gyfer disgyblion gydag Anghenion Dysgu Ychwanegol, Unedau Cyfeirio Disgyblion, y Cwricwlwm Amgen, Plant sy'n Derbyn Gofal ac adolygiad o lwybrau bws rhwng y cartref a'r ysgol.</p> <p>ii) <u>Incwm Parcio - £400k</u> Amcangyfrifir y gellir sicrhau cynnydd o £240k mewn incwm drwy adolygu /</p>

	<p>symleiddio'r strwythur codi ffioedd presennol ochr yn ochr â chysoni'r taliadau yn yr hen faes parcio Parcio a Theithio gyda Maes-yr-Afon. Bydd y ffrwd waith hefyd yn archwilio rhagor o gyfleoedd newydd i greu incwm ychwanegol.</p> <p>iii) <u>Adolygu'r defnydd o arian y Rhaglen Gyfalaf</u> Cynhaliwyd adolygiad o wariant cynlluniedig Priffyrdd. Lle mae gwaith arfaethedig yn cynyddu oes a/neu werth asedau sy'n ymwneud â Phriffyrdd yn sylweddol, bydd y gwaith hwn yn cael ei gyfalafu. Disgwylir budd ariannol o £360k o hyn sy'n cynnwys swm cyfatebol yn cael ei ddarparu yn y Rhaglen Gyfalaf.</p> <p>2. <u>Gostyngiad yng nghyfradd cyflogwyr Cronfa Bensiwn Dyfed - £782k</u> Mae'r gwasanaeth yn disgwyl cyfrannu £91k at yr arbediad hwn.</p> <p>3. <u>Incwm Ffioedd a Chostau</u> Mae'r ffioedd a'r costau unigol i'w gweld yn Atodiad C.</p> <p>Disgwylir y bydd Priffyrdd a Gwasanaethau Amgylcheddol yn cyfrannu £170k drwy'r cynnydd arfaethedig mewn Ffioedd a Chostau nad ydynt yn ymwneud â pharcio, yn bennaf ym meysydd Harbyrau, Gwaith Stryd, a Chau Ffyrdd Dros Dro. Mae cynigion yn ystyried y lefelau chwyddiant uwch yn ogystal â cheisio cyflawni lefelau uwch o incwm.</p>				
<p>A ystyriwyd ffordd arall o ddarparu'r gwasanaeth?</p>	<table border="1"> <tr> <td data-bbox="448 1624 683 1771"> <p>Cydweithio</p> </td> <td data-bbox="683 1624 1399 1771"> <p>Dim cyfleoedd i gydweithio gan fod y gwasanaeth wedi'i ganoli o fewn y Cyngor ac nid yw hyn yn opsiwn ar hyn o bryd gydag Awdurdodau cyfagos ar gyfer 23/24.</p> </td> </tr> <tr> <td data-bbox="448 1771 683 1917"> <p>Integreiddio</p> </td> <td data-bbox="683 1771 1399 1917"> <p>Mae'r gwasanaeth wedi'i ganoli drwy ailstrwythuro corfforaethol ac mae wedi'i integreiddio'n llawn ynddo'i hun i gefnogi pob maes gwasanaeth.</p> </td> </tr> </table>	<p>Cydweithio</p>	<p>Dim cyfleoedd i gydweithio gan fod y gwasanaeth wedi'i ganoli o fewn y Cyngor ac nid yw hyn yn opsiwn ar hyn o bryd gydag Awdurdodau cyfagos ar gyfer 23/24.</p>	<p>Integreiddio</p>	<p>Mae'r gwasanaeth wedi'i ganoli drwy ailstrwythuro corfforaethol ac mae wedi'i integreiddio'n llawn ynddo'i hun i gefnogi pob maes gwasanaeth.</p>
<p>Cydweithio</p>	<p>Dim cyfleoedd i gydweithio gan fod y gwasanaeth wedi'i ganoli o fewn y Cyngor ac nid yw hyn yn opsiwn ar hyn o bryd gydag Awdurdodau cyfagos ar gyfer 23/24.</p>				
<p>Integreiddio</p>	<p>Mae'r gwasanaeth wedi'i ganoli drwy ailstrwythuro corfforaethol ac mae wedi'i integreiddio'n llawn ynddo'i hun i gefnogi pob maes gwasanaeth.</p>				
<p>A fydd y cynigion ar gyfer lleihau costau / gwneud arbedion yn y gyllideb yn cael</p>	<p>Mewnol <input type="checkbox"/></p>				

effaith ar ddinasyddion neu ai arbedion mewnol yn unig yw'r rhain?		Dinasyddion ✓ cynnydd ar gyfer gwasanaethau dewisol/nad ydynt yn orfodol a gwasanaethau nad ydynt yn wynebu'r cyhoedd.
Beth fydd effaith a chanlyniadau'r cynigion ar gyfer gwneud arbedion yn y tymor byr / tymor hir?	Tymor byr:	Mae angen y cynnydd mewn ffioedd a chostau dewisol/nad ydynt yn orfodol er mwyn diogelu darpariaeth gwasanaethau o fewn Priffyrdd a Gwasanaethau Amgylcheddol er mwyn sicrhau y gellir eu cynnal yn y dyfodol oherwydd pwysau chwyddiant digynsail.
	Tymor hir:	Mae'r cynigion incwm/arbedion yn ofynnol er mwyn diogelu darpariaeth gwasanaethau o fewn Priffyrdd a Gwasanaethau Amgylcheddol er mwyn sicrhau y gellir eu cynnal yn y dyfodol.
A ydych chi wedi ymgynghori â'r rhanddeiliaid ar y cynnig? Beth oedd yr adborth?		Na, ni fydd y rhanddeiliaid yn cael eu heffeithio'n uniongyrchol ac eithrio'r cynnydd mewn Ffioedd a Chostau, sy'n ymwneud â gwasanaethau dewisol/nad ydynt yn orfodol.
Swyddog Arweiniol Corfforaethol:		Rhodri Llwyd

**Y CYNIGION AR GYFER LLEIHOU COSTAU / GWNEUD ARBEDION YNG
NGHYLLIDEB 2023/24**

Pwyllgor Trosolwg a Chraffu:	Cymunedau Ffyniannus
Gwasanaeth:	Economi ac Adfywio
Aelod y Cabinet a Phortffolio'r Cabinet:	Y Cyngorydd Clive Davies Aelod y Cabinet dros Economi ac Adfywio
Cefndir:	Cyfanswm arfaethedig yr arbedion yng nghyllideb y Cyngor ar gyfer 23/24 yw £8.862m. Mae'r Cyngor yn dilyn dull corfforaethol o weithredu er mwyn cyflawni hyn, gan gynnwys targed o £3.075m fel rhan o 'Gwneud Pethau'n Wahanol: Dull Corfforaethol o Weithredu'.
Y Targed o ran Lleihau Costau / Gwneud Arbedion 2023/24:	£307k (+ £125k pellach wedi ei ddangos o dan y Grŵp Arweiniol)
Y Gyllideb Bresennol:	£3.637m
Sut caiff y cynigion ar gyfer lleihau costau / gwneud arbedion yn y gyllideb eu cyflawni?	<p>1. <u>Gwneud Pethau'n Wahanol: Dull Corfforaethol o Weithredu - £3.075m</u> Mae Economi ac Adfywio yn ymwneud â nifer o ffrydiau gwaith, sef:</p> <p>i) <u>Buddsoddiad mewn Cynlluniau Ynni - £125k (wedi'i ddangos o dan y Grŵp Arweiniol)</u> Nod y ffrwd waith hon yw sicrhau arbedion refeniw parhaus o naill ai Buddsoddiad Ynni newydd neu gynlluniau effeithlonrwydd ynni. Mae dyraniad ychwanegol o £1.0m wedi'i gynnwys yn y Rhaglen Gyfalaf arfaethedig ar draws 23/24 a 24/25 i ddarparu rhaglenni cyfalaf. Mae prosiectau manwl yn dal i gael eu llunio ond maent yn debygol o gynnwys cynlluniau gwynt a solar.</p> <p>ii) <u>Adolygiad o Asedau Corfforaethol - £250k</u> Bydd y ffrwd waith hon yn edrych ar ystod o gyfleoedd yn ymwneud â'r Ystâd Gorfforaethol, Adeiladau Gweithredol a chyfleoedd Masnachol. Mae'r</p>

	<p>prosiect Ffyrdd o Weithio eisoes yn adolygu'r defnydd o adeiladau'r Cyngor yn y dyfodol ac mae adolygiad o sylfaen Asedau Adeiladau'r Cyngor gyda golwg ar resymoli asedau wedi dechrau. Bydd cyfleoedd Incwm hefyd o sefydliadau eraill yn y Sector Cyhoeddus ac yn fasnachol. Disgwylir y bydd y ffrwd waith hon yn sicrhau arbedion pellach dros y tymor canolig wrth i'r gwaith ddatblygu.</p> <p>2. <u>Gostyngiad yng nghyfradd cyflogwyr Cronfa Bensiwn Dyfed - £782k</u> Mae'r gwasanaeth yn ei gyfanrwydd yn disgwyl cyfrannu £57k at yr arbediad hwn.</p> <p>3. <u>Incwm Ffioedd a Chostau</u> Mae'r Ffioedd a'r Costau Unigol i'w gweld yn Atodiad C.</p> <p>Lle mae Ffioedd a Chostau yn cynnwys amser staff a/neu gostau ynni, mae Ffioedd wedi cael eu hadolygu i sicrhau bod lefelau chwyddiant ar hyn o bryd yn cael eu hystyried. Mae hyn yn berthnasol i Reoli Adeiladu, Ffioedd Cynllunio (lle cânt eu pennu gan y Cyngor), Pridiannau Tir Lleol, Llogi Cyfleusterau a Ffioedd sy'n gysylltiedig â Hawliau Tramwy Cefn Gwlad.</p> <p>Mae Ffioedd a Chostau mewn perthynas â Chanolfan Bwyd Cymru a Neuaddau Marchnad wedi'u hadolygu gan ystyried chwyddiant a natur fasnachol y gweithgareddau.</p> <p>Mae Ffioedd a Chostau mewn perthynas â Chyfleusterau Cyhoeddus wedi'u hadolygu, gyda chodiad i 30c ar gyfer y brif gost yn cael ei gynnig i dalu costau tebyg i chwyddiant ond hefyd i ddarparu mwy o incwm i gyfrannu at gyfanswm cost y gwasanaeth hwn.</p>
<p>A ystyriwyd ffordd arall o ddarparu'r gwasanaeth?</p>	<p>Cydweithio</p> <p>Mae'r gwasanaeth yn ymwneud â gwaith ymgysylltu sylweddol a gweithio'n sylweddol mewn partneriaeth ar draws y rhanbarth ac yn lleol. Mae hyn yn helpu i ddenu cyllid sylweddol</p>

		i'r Sir a chyflawni tuag at y Strategaeth Gorfforaethol.
	Integreiddio	Mae gweithio'n rhanbarthol ac yn lleol yn rhoi nifer o gyfleoedd i integreiddio ac alinio cyllid a mentrau newydd â chynlluniau a strategaethau corfforaethol sy'n bodoli eisoes.
A fydd y cynigion ar gyfer lleihau costau / gwneud arbedion yn y gyllideb yn cael effaith ar ddinasyddion neu ai arbedion mewnol yn unig yw'r rhain?		Mewnol X Dinasyddion X
Beth fydd effaith a chanlyniadau'r cynigion ar gyfer gwneud arbedion yn y tymor byr / tymor hir?	Tymor byr:	Bydd y rhan fwyaf o arbedion yn helpu i gyflawni Amcanion Corfforaethol e.e. bydd ynni nid yn unig yn cyflawni arbedion ond bydd hefyd yn cyflawni o ran uchelgeisiau Sero Net y Cyngor. Efallai y gwnaiff rhai codiadau mewn ffioedd effeithio ar gwsmeriaid yn dewis defnyddio cyfleusterau eraill. Mae'n well codi ffioedd na chau cyfleusterau er mwyn lleihau'r bwlch rhwng incwm a chost rhedeg y gwasanaeth.
	Hirdymor:	Bydd cynigion sy'n ymwneud ag ynni yn helpu i gyflawni'r Strategaeth Gorfforaethol, gan gynnal gwasanaethau drwy helpu i leihau effaith costau ynni sy'n codi.
A ydych chi wedi ymgynghori â'r rhanddeiliaid ar y cynnig? Beth oedd yr adborth?		Mae cyflenwi gwasanaethau yn golygu ymgysylltu ac ymgynghori'n sylweddol i lunio strategaethau, rhaglenni cyllido a chyflawni prosiectau. Gall hyn fod ar lefel ranbarthol a/neu sirol ac mae'n denu cyllid sylweddol i gyflawni newid. Ymgynghorwyd pan baratowyd Strategaeth y Toiledau Cyhoeddus gan gynnwys yr angen i godi ffioedd i ddiogelu a gwella toiledau a gwelwyd hyn yn gadarnhaol. Nid oes dim ymgynghoriad penodol wedi'i gynnal ynghylch y codiad arfaethedig mewn ffioedd ar gyfer defnyddio toiledau.
Swyddog Arweiniol Corfforaethol:		Russell Hughes-Pickering

Adnoddau Corfforaethol

**Y CYNIGION AR GYFER LLEIHOU COSTAU / GWNEUD ARBEDION YNG
NGHYLLIDEB 2023/24**

Pwyllgor Trosolwg a Chraffu:	Adnoddau Corfforaethol
Gwasanaeth:	Gwasanaethau Democrataidd
Aelod Cabinet a Phortffolio Cabinet:	Y Cyngorydd Bryan Davies Aelod Cabinet dros y Gwasanaethau Democrataidd, Polisi a Pherfformiad a Phobl a Threfniadaeth
Cefndir:	Cyfanswm arfaethedig yr arbedion yng nghyllideb y Cyngor ar gyfer 23/24 yw £8.862m. Mae'r Cyngor yn dilyn dull corfforaethol o weithredu er mwyn cyflawni hyn, gan gynnwys targed o £3.075m fel rhan o 'Gwneud Pethau'n Wahanol: Dull Corfforaethol o Weithredu. Mae'r Gwasanaethau Democrataidd, drwy'r Tîm Cymorth Corfforaethol i Wasanaethau, yn darparu cymorth yn ôl yr angen i brosiectau corfforaethol 'Gwneud Pethau'n Wahanol'.
Y Targed o ran Lleihau Costau / Gwneud Arbedion 2023/24:	£38k
Y gyllideb bresennol:	£4.628m (gan gynnwys Lwfansau'r Aelodau)
Sut caiff y cynigion ar gyfer lleihau costau / gwneud arbedion yn y gyllideb eu cyflawni?	<ol style="list-style-type: none"> <u>Gostyngiad yng nghyfradd cyflogwyr Cronfa Bensiwn Dyfed - £782k</u> Mae'r gwasanaeth yn disgwyl y bydd yn cyfrannu £38k at yr arbediad hwn. <u>Ffioedd a Chostau</u> Mae'r ffioedd a'r costau unigol i'w gweld yn Atodiad C. <ul style="list-style-type: none"> Mae Adran Codi'r Gwastad, Tai a Chymunedau Llywodraeth y Deyrnas Unedig a chynrychiolwyr o blith y gweinyddwyr etholiadol wedi cynnal adolygiad i sicrhau lefel gyson o ffioedd ar gyfer rolau penodol o ran etholiadau. <p>Cymharwyd ein ffioedd ar gyfer is-etholiadau Cyngorau Tref a Chymuned a chafodd y ffioedd arfaethedig eu</p>

		<p>cyflwyno a'r newidiadau arfaethedig eu gwneud, lle bo angen. Mae'r cynnydd yn y rhan fwyaf o achosion yn llai na chyfradd chwyddiant ar hyn o bryd ond mae'n adlewyrchu cyfrifoldebau pob rôl.</p> <p>Mae un ffi newydd wedi'i hychwanegu at y rhestr er mwyn adlewyrchu rôl bwysig dosbarthu ac agor pleidleisiau post (gwneir y ddwy rôl yn fewnol).</p> <ul style="list-style-type: none"> • Mae costau eraill wedi'u cynyddu er mwyn adlewyrchu'r cynnydd mewn costau ynni h.y. costau argraffu yn ogystal â chostau postio. Mae hyn yn sicrhau bod modd adennill y costau yn llawn. • Mae'r gost o logi set o gyfarpar cyfieithu a'r tâl ar gyfer prynu clustffonau newydd yn lle'r rhai a gollwyd yn adlewyrchu chwyddiant a'r cynnydd yng nghostau y rhan fwyaf o nwyddau a gwasanaethau.
A ystyriwyd ffordd arall o ddarparu'r gwasanaeth?	Cydweithio	Ddim yn berthnasol
	Integreiddio	Ddim yn berthnasol
A fydd y cynigion ar gyfer lleihau costau / gwneud arbedion yn y gyllideb yn cael effaith ar ddinasyddion neu ai arbedion mewnol yn unig yw'r rhain?		<p>Mewnol <input type="checkbox"/></p> <p>Dinasyddion <input type="checkbox"/></p> <p>Ddim yn berthnasol</p>
Beth fydd effaith a chanlyniadau'r cynigion ar gyfer gwneud arbedion yn y tymor byr / tymor hir?	Tymor byr:	Cynnydd bach yn y ffioedd a fydd dim ond yn effeithio ar Gynghorau Tref a Chymuned os bydd is-etholiad yn cael ei gynnal
	Tymor hir:	Cynnydd bach yn y ffioedd ar gyfer y Cyngor, os bydd is-etholiad yn cael ei gynnal neu adeg yr Etholiadau Lleol nesaf yn 2027.
A ydych chi wedi ymgynghori â'r rhanddeiliaid ar y cynnig? Beth oedd yr adborth?		Mae trafodaethau yn cael eu cynnal yn genedlaethol, gan gynnwys trafodaethau gydag Adran Codi'r Gwastad, Tai a Chymunedau

	Llywodraeth y Deyrnas Unedig, i sicrhau cysondeb o ran ffioedd ar gyfer rolau penodol o ran etholiadau.
Swyddog Arweiniol Corfforaethol:	Lowri Edwards Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Gwasanaethau Democrataidd

**Y CYNIGION AR GYFER LLEIHOU COSTAU / GWNEUD ARBEDION YNG
NGHYLLIDEB 2023/24**

Pwyllgor Trosolwg a Chraffu:		Adnoddau Corfforaethol
Gwasanaeth:		Pobl a Threfniadaeth
Aelod Cabinet a Phortffolio Cabinet:		Y Cyngorydd Bryan Davies Aelod Cabinet dros y Gwasanaethau Democrataidd, Polisi, Perfformiad a Phobl a Threfniadaeth
Cefndir:		Cyfanswm arfaethedig yr arbedion yng nghyllideb y Cyngor ar gyfer 23/24 yw £8.862m. Mae'r Cyngor yn dilyn dull corfforaethol o weithredu er mwyn cyflawni hyn, gan gynnwys targed o £3.075m fel rhan o 'Gwneud Pethau'n Wahanol: Dull Corfforaethol o Weithredu'. Bydd y Gwasanaeth Pobl a Threfniadaeth yn darparu cymorth i'r holl ffrydiau gwaith yn ôl yr angen.
Y Targed o ran Lleihau Costau / Gwneud Arbedion 2023/24:		£21k
Y gyllideb bresennol:		£2.161m
Sut caiff y cynigion ar gyfer lleihau costau / gwneud arbedion yn y gyllideb eu cyflawni?		1. <u>Gostyngiad yng nghyfradd cyflogwyr Cronfa Bensiwn Dyfed - £782k</u> Mae'r Gwasanaeth Pobl a Threfniadaeth yn disgwyl y bydd yn cyfrannu £21k at yr arbediad hwn.
A ystyriwyd ffordd arall o ddarparu'r gwasanaeth?	Cydweithio	Amherthnasol
	Integreiddio	Amherthnasol
A fydd y cynigion ar gyfer lleihau costau / gwneud arbedion yn y gyllideb yn cael effaith ar ddinasyddion neu ai arbedion mewnol yn unig yw'r rhain?		Mewnol <input checked="" type="checkbox"/> Dinasyddion <input type="checkbox"/>
Beth fydd effaith a chanlyniadau'r cynigion ar gyfer gwneud arbedion yn y	Tymor byr:	Dim
	Tymor hir:	Fel yr uchod

tymor byr / tymor hir?		
A ydych chi wedi ymgynghori â'r rhanddeiliaid ar y cynnig? Beth oedd yr adborth?		Amherthnasol
Swyddog Arweiniol Corfforaethol:		Geraint Edwards Pobl a Threfniadaeth

**Y CYNIGION AR GYFER LLEIHOU COSTAU / GWNEUD ARBEDION YNG
NGHYLLIDEB 2023/24**

Pwyllgor Trosolwg a Chraffu:	Adnoddau Corfforaethol
Gwasanaeth:	Polisi, Perfformiad a Diogelu'r Cyhoedd (yr elfennau Polisi a Pherfformiad yn unig)
Aelod Cabinet a Phortffolio Cabinet:	Y Cynghorydd Bryan Davies Aelod Cabinet dros y Gwasanaethau Democrataidd, Polisi, Perfformiad a Phobl a Threfniadaeth
